# Your response

| Question | Your response |
| --- | --- |
| **Question 1:** Do you have any comments on Ofcom's proposed Work Plan for 2026/27? | Confidential? – N<br><br>We welcome the opportunity to respond to this consultation on Ofcom's proposed plan of work for 2026/27.<br><br>You may be aware of the findings of a recent report by the Welsh Language Commissioner on the use of the Welsh language by children and young people. The research shows that children and young people's use of Welsh in the digital world is generally limited. The trend among children and young people seems to be to use English online, on social media, and when watching TV and digital content. Part of the reason for this is the lack of prominence and presence of Welsh-medium content on television, on online platforms and on social media.<br><br>Given the importance of digital media and social media in the lives of young people today, increasing the use of Welsh in these areas is key to the vitality of the Welsh language in the future. It is therefore necessary to consider what more could be done to encourage the use of Welsh in these areas, and how the attitudes and habits of young Welsh speakers could be changed.<br><br>We believe that Ofcom has an important role to play in the above context. As an organisation with significant influence in this area, we believe that Ofcom should encourage broadcasters and digital platforms to increase the presence and visibility of Welsh language content. In the above context we are extremely pleased that Ofcom has already committed to working with the Welsh Language Commissioner to hold a roundtable event on the use of the Welsh language in broadcasting and digital media in March, 2026.<br><br>In relation to the plan of work in question we are pleased to see that the plan contains a clear commitment to continue to facilitate the use of the Welsh language and to carry out impact assessments on the Welsh language in policy making, in line with Ofcom's statutory obligations under the Welsh Language (Wales) Measure 2011. We also welcome reference to Welsh language |

| Question | Your response |
| --- | --- |
| | content as part of the expected outcomes for Welsh audiences in implementing the new Media Act.<br><br>While we welcome these general references to the Welsh language in the plan of work, we believe that the plan could be strengthened by referring to the Welsh language when discussing specific strategic priorities and work programmes. We would therefore encourage you to consider how the Welsh language could be incorporated into each of the four strategic priorities, for example by ensuring that media awareness, online safety, and digital content programmes take into account the needs of Welsh speakers. More specifically:<br><br>• As part of the work to understand the impact of artificial intelligence on consumer experience in telecommunications (strategic priority 1), the experiences of Welsh speakers should be considered in particular.<br><br>• Strategic priority 2 refers to the importance of ensuring that audiences are able to find and access a wide variety of content that represents the diversity of the UK's countries and regions.<br><br>Point 2.12 of the consultation document which discusses visibility and accessibility and the intention to publish a final code of practice in 2026/27 is very relevant in the above context.<br><br>There is a clear opportunity to ensure the accessibility and visibility of Welsh-medium services and content in this context. The key role of public service broadcasters in providing Welsh-medium provision and content is very important in this context.<br><br>• Point 2.14 of the consultation document refers to Ofcom's role in the context the BBC charter review in 2026/27. As you are aware, this review has important implications in terms of Welsh language broadcasting. Welsh-medium broadcasting is dependent on broadcasting services funded by public money. We would therefore encourage Ofcom to consider issues relating to Welsh-medium broadcasting as part of its work of providing input and expertise to this significant discussion. |

| Question | Your response |
|---|---|
| | • Strategic priority 3 refers to the importance of online safety. There is an opportunity here to integrate Welsh language considerations into Ofcom's online safety work. Consideration needs to be given to how Welsh-speaking users can be protected from illegal and harmful content online. This is an area where more research and understanding is needed.<br>• We would also encourage you to consider how Ofcom can use its research capacity to guide policy discussions and interventions in broadcasting, digital media and the Welsh language.<br>We hope that the above comments are of use and we look forward to continuing to work together to ensure that the Welsh language is covered in all aspects of Ofcom's work. |

Please complete this form in full and return to planofwork@ofcom.org.uk

# Eich ymateb

| Cwestiwn | Eich ymateb |
|---|---|
| **Cwestiwn 1:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar Gynllun Gwaith arfaethedig Ofcom ar gyfer 2026/27? | Cyfrinachol? – N<br><br>Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar gynllun gwaith arfaethedig Ofcom ar gyfer 2026/27.<br><br>Efallai eich bod yn ymwybodol o ganfyddiadau adroddiad diweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Mae'r ymchwil yn dangos bod defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn y byd digidol yn gyfyngedig ar y cyfan. Ymddengys mai'r tueddiad ymysg plant a phobl ifanc yw defnyddio'r Saesneg ar-lein, ar gyfryngau cymdeithasol, ac wrth wylio teledu a |

| Cwestiwn | Eich ymateb |
|---|---|
| | chynnwys digidol. Rhan o’r rheswm am hyn yw diffyg amlygrwydd a phresenoldeb cynnwys cyfrwng Cymraeg ar y teledu, ar blatfformau ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>O ystyried pwysigrwydd y cyfryngau digidol a chyfryngau cymdeithasol ym mywydau pobl ifanc heddiw, mae cynyddu defnydd o’r Gymraeg yn y meysydd hyn yn allweddol o safbwynt hyfywedd y Gymraeg i’r dyfodol. Mae angen felly ystyried beth yn fwy y gellid ei wneud er mwyn annog defnydd y Gymraeg yn y meysydd hyn, a sut gellid newid agweddau ac arferion siaradwyr Cymraeg ifanc.<br><br>Rydym o’r farn fod gan Ofcom rôl bwysig yn y cyd-destun uchod. Fel corff sydd â dylanwad sylweddol yn y maes hwn, credwn y dylai Ofcom annog darlledwyr a llwyfannau digidol i gynyddu presenoldeb a gweledadd cynnwys Cymraeg. Yn y cyd-destun uchod rydym yn hynod falch bod Ofcom eisoes wedi ymrwymo i gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn cynnal digwyddiad bwrdd crwn ar ddefnydd y Gymraeg ym maes darlledu a chyfryngau digidol ym mis Mawrth, 2026.<br><br>O ran y cynllun gwaith dan sylw rydym yn falch o weld bod y cynllun yn cynnwys ymrwymiad clir i barhau i hwyluso’r defnydd o'r Gymraeg ac i gynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg wrth lunio polisïau, yn unol â rhwymedigaethau statudol Ofcom o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rydym hefyd yn croesawu cyfeiriad at gynnwys Cymraeg fel rhan o'r canlyniadau disgwyliedig i gynulleidfaoedd Cymru wrth weithredu’r Ddeddf Cyfryngau newydd.<br><br>Er ein bod yn croesawu’r cyfeiriadau cyffredinol hyn at y Gymraeg yn y cynllun gwaith, credwn y byddai modd cryfhau’r cynllun drwy gyfeirio at y Gymraeg wrth drafod blaenoriaethau strategol a rhaglenni gwaith penodol. Byddem yn eich annog felly i ystyried sut gellid ymgorffori ystyriaeth o'r Gymraeg ym mhob un o'r pedair blaenoriaeth strategol, er enghraifft drwy sicrhau |

| Cwestiwn | Eich ymateb |
|---|---|
| | bod rhaglenni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, diogelwch ar-lein, a chynnwys digidol yn ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg. Yn fwy penodol:<br><br>• Fel rhan o'r gwaith i ddeall effaith deallusrwydd artiffisial ar brofiad defnyddwyr ym maes telegyfathrebiadau (blaenoriaeth strategol 1), dylid ystyried profiadau siaradwyr Cymraeg yn benodol.<br><br>• Mae blaenoriaeth strategol 2 yn cyfeirio at sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu canfod a chael gafael ar amrywiaeth eang o gynnwys sy'n cynrychioli amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r DU.<br><br>Mae pwynt 2.12 y ddogfen ymgynghori sy'n trafod amlygrwydd a hygyrchedd a'r bwriad i gyhoeddi cod ymarfer terfynol yn 2026/27 yn berthnasol iawn yn y cyd-destun uchod.<br><br>Mae cyfle amlwg i gyfeirio at sicrhau hygyrchedd ac amlygrwydd gwasanaethau a chynnwys cyfrwng Cymraeg yn y cyd-destun hwn. Mae rôl allweddol darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cynnig darpariaeth a chynnwys cyfrwng Cymraeg yn bwysig iawn yn y cyd-destun hwn.<br><br>• Mae pwynt 2.14 y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at rôl Ofcom yng nghyd destun adolygiad o siarter y BBC yn 2026/27. Fel y gwyddoch mae gan yr adolygiad hwn oblygiadau pwysig o ran darlledu Cymraeg ei hiaith. Mae darlledu cyfrwng Cymraeg yn ddibynnol ar wasanaethau darlledu a ariennir gan y pwrs cyhoeddus. Byddem felly yn annog Ofcom i ystyried materion yn ymwneud â darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'i waith o ddarparu mewnbwn ac arbenigedd i'r drafodaeth arwyddocaol hwn. |

| Cwestiwn | Eich ymateb |
|---|---|
| | • Mae blaenoriaeth strategol 3 yn cyfeirio at bwysigrwydd diogelwch ar-lein. Mae cyfle yma i integreiddio ystyriaethau iaith Gymraeg i waith diogelwch ar-lein Ofcom. Mae angen ystyried sut mae modd amddiffyn defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg rhag cynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar lein. Mae hwn yn faes lle mae angen rhagor o ymchwil a dealltwriaeth.<br><br>• Byddem hefyd yn eich ango i ystyried sut gall Ofcom ddefnyddio ei gapasiti ymchwil i arwain trafodaethau ac ymyriadau polisi ym maes darlledu, cyfryngau digidol a'r Gymraeg.<br><br>Gobeithio bod y sylwadau uchod o ddefnydd ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw ym mhob agwedd ar waith Ofcom. |

Cwblhewch y ffurflen hon yn llawn a dychwelwch hi i planofwork@ofcom.org.uk.